Emyn Sul yr Hinsawdd

O Luniwr y ddaear a harddwch ei thir
a chynnyrch beunyddiol ei holl erwau ir,
dy gread a'n geilw i newid ein ffyrdd
a byw mewn ufudd-dod i ddeddfau byd gwyrdd.

Wrth weled fforestydd yn wenfflam dros ddaer,
allyriant ein bywyd yn llygru yr aer,
a chnydau yn crino, cydnabod a wnawn
i'n fethu gofalu am d'eiddo yn iawn.

Ein chwant ni'r cyfoethog sy'n llethu dy fyd
ac ochain yn uchel mae'r cread i gyd.
Ni allwn ond gwrido ac edifarhau
gan ddeisyf maddeuant am beri'r fath wae.

A'n daear ar drengi, a'n sbwriel yn staen
dros donnau'r cefnforoedd, ymbiliwn o'th flaen
mewn gweddi am gymorth wrth inni ddyheu
am adfer dy gread i lendid ei greu.

Eirian Dafydd

Mesur 11.11.11.11
Mae nifer o donnau addas yn *Caneuon Ffydd* e.e. Joanna, Caernarfon.